



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Wythnos ola'r tymor

Mae'n wythnos ola'r flwyddyn ysgol a hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn.

Pan dderbyniwch y llythyr hwn drwy e-bost, mi sylwch fod dolen i Holiadur Forms yno hefyd, sef holiadur i gasglu eich barn bresennol chi am yr ysgol. Gwerthfawrogwn os allwch dreulio hyd at 5 munud o'ch amser os gwelwch yn dda i roi adborth er mwyn i ni barhau i wella'r ysgol.

Barbeciw y Gymdeithas Rieni ac Athrawon

Cynhelir y barbeciw ar **nos lau yr 20fed o Orffennaf am 6yh** ar iard yr ysgol. Mae tocynnau ar werth o Swyddfa'r Ysgol gyda dewis o gig rhost, barbeciw neu lysieuol (Oedolion £5 o flaen llaw sef cyn diwedd y dydd, dydd Llun 17eg / yna £8 ar y noson; a phlant yn £3.50 o flaen llaw / £5 ar y noson)

Mi fydd y noson yn parhau glaw neu hindda – os fydd hi'n wlyb byddwn yn cynnal y digwyddiad yn neuadd yr ysgol.

Ffarwelio gyda Blwyddyn 6

Byddwn yn cynnal Gwasanaeth Ffarwelio gyda Blwyddyn 6 ar y dydd Gwener olaf yn Neuadd yr Ysgol. Byddwn yn dosbarthu'r tariannau diwedd blwyddyn hefyd yn ystod y gwasanaeth hwnnw, gan rannu'r newyddion gyda chi trwy ein cyfrifon Trydar.

Hoffwn ddiolch am gyfraniadau disgyblion blwyddyn 6 i'r Ysgol Gymraeg ar hyd y blynyddoedd, a dymunaf yn dda iddynt ar gyfer eu cyfnodau yn yr ysgolion uwchradd, ac i'r dyfodol. Mi fyddwn yn sicr yn gweld eu heisiau nhw fis Medi.

Lluniau dosbarth/blwyddyn

Anfonwyd y dolenni archebu atoch rai wythnosau yn ôl trwy ebost (03/07/2023). Mae cwmni Tempest yn parhau i dderbyn archebion os ewch chi i'w gwefan trwy'r dolenni hynny.

Calendr Hanner Tymor

Mae'r [Calendr Hanner Tymor](#) yn parhau i gael ei addasu fel mae digwyddiadau yn cael eu hychwanegu neu eu hepgor.

Dyddiadau pwysig

Bydd yr ysgol yn cau am 3:30yp ddydd Gwener yma, Gorffennaf yr 21ain ar gyfer gwyliau'r haf.

Ym mis Medi mi fydd hi'n ddiwrnodau Hyfforddiant Staff ar y 1af a'r 4ydd, gyda'r tymor newydd yn cychwyn i blant ar **ddydd Mawrth y 5ed o Fedi 2023**.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,
Gareth L James
Pennaeth Dros Dro
16/07/2023

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Last week of term

It is the last week of the school year and I would like to thank you all for your support throughout the year.

When you receive this letter by e-mail, please note that there is also a link to a Forms Questionnaire, which is a questionnaire to collect your current opinion about the school. We would appreciate it if you could spend up to 5 minutes of your time, please to give feedback so that we can continue to improve the school.

Parent Teacher Association BBQ

*The barbecue will be held on **Thursday the 20th of July at 6pm** on the school yard. Tickets are on sale from the School Office with a choice of roast meat, barbecue or vegetarian (Adults £5 in advance before the end of the day, Monday 17th / then £8 on the night; and children £3.50 in advance / £5 on the night)*

The barbecue will continue rain or shine - if it is wet we will hold the event in the school hall.

Saying goodbye to Year 6

We will hold a Farewell Assembly with Year 6 on the last Friday in the School Hall. We will also distribute the end of year trophies during that service, sharing the news with you via our Twitter accounts.

I would like to thank the year 6 pupils for their contributions to Ysgol Gymraeg throughout the years, and I wish them well for their time in the secondary schools, and for the future. We will certainly miss them in September.

Class/year photos

The order links were sent to you a few weeks ago by email (03/07/2023). The Tempest photography company continues to accept orders if you go to their website via those links.

Half Term Calendar

The [Half Term Calendar](#) continues to be updated as events are added or omitted.

Important dates

The school will close at 3:30pm this Friday, July 21st for the summer holidays.

*In September it will be Staff Training days on the 1st and 4th, with the new term starting for children on **Tuesday the 5th of September 2023.***

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

***Yours sincerely,
Gareth L James
Acting Headteacher
16/07/2023***